

Teitl y Swydd: Cydlynedd Gweithgarwch Corfforol a Chynhwysiant

Uned/Ysgol: Chwaraeon Met Caerdydd

Gradd: 4A/B

HERA: CMETS100

Prif bwrpas y rôl

Gan weithio mewn ardal benodol o Gaerdydd, byddwch yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi a galluogi mwy o bobl, yn enwedig plant a phobl ifanc, i fod yn egnïol ac i aros yn egnïol. Bydd hyn yn gofyn am ddull cyfan o feddwl a dylanwadu, ac ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ar draws y Bartneriaeth Symud Mwy, i greu'r amodau i drigolion fod yn fwy egnïol yn amlach a chefnogi uchelgais y Strategaeth Symud Mwy i wneud 'Caerdydd y ddinas fwyaf gorfforol egnïol yn y DU'. I gwrdd â'r her hon byddwch yn cydlynu, yn ysbrydoli, yn meithrin cydweithio ac yn hyrwyddo manteision symud mwy.

Rydym am greu newid yn ein cymunedau yng Nghaerdydd fel eu bod yn gweld symud mwy yn beth hollol normal, a bod 'bwrlwm' o weithgareddau yn y ddinas wrth i bobl ddod o hyd i wahanol ffyrdd o fod yn egnïol.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

- Deall cyfeiriad strategol y Strategaeth Symud Mwy o Weithgarwch Corfforol a Chwaraeon i gynyddu gweithgarwch corfforol drwy ddull sy'n seiliedig ar leoliad
- Defnyddio dulliau datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau i ymgysylltu â'r lleiaf egnïol a nodi'r cryfderau yn yr ardal.
- Defnyddio data perthnasol a mewnwelediadau ac adeiladu perthnasoedd dibynadwy i ddylanwadu ar randdeiliaid allweddol er mwyn diwallu anghenion y rhai sy'n wynebu'r anghydraddoldebau mwyaf yn well.
- Cipio dysgu ac effeithiau newid o fewn y system ac ar draws y lle trwy gofnodion dysgu, casglu straeon a data.
- Sicrhau bod cydraddoldeb a chynhwysiant yn chwarae rôl flaenllaw wrth gynllunio a chyflawni.
- Deall a chydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch (gan gynnwys asesiadau risg, rhestrau gwirio safleoedd, diogelu).
- Nodi a chwblhau ceisiadau am gyllid i gefnogi datblygiad a chynaliadwyedd hirdymor gweithgareddau.

- Mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol sy'n ymwneud â chwaraeon cymunedol a gweithgarwch corfforol fel y cytunwyd gyda'r rheolwr llinell.
- Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei weithredu bob amser yn unol â'r holl ddeddfwriaeth a gofynion statudol cyfredol

Manyleb person**Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol**

1. Gradd berthnasol neu brofiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol o ymgysylltu â grwpiau cymunedol.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol.

2. Profiad blaenorol o weithio mewn lleoliad cymunedol.
3. Profiad o gynllunio prosiectau a gwaith gweinyddol.
4. Profiad o cyllidebu a sgiliau rhifedd.
5. Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol eithriadol, y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd cryf ag ystod eang o randdeiliaid allweddol.
6. Sgiliau rheoli amser a threfnu rhagorol, yn gallu rheoli sawl blaenoriaeth ar yr un pryd.
7. Rhaid i chi fod yn hunanddisgybledig a gallu gweithio'n annibynnol, rheoli llwyth gwaith eich hun a defnyddio'ch menter eich hun heb oruchwyliaeth agos.
8. Trwydded yrru gyfredol a/neu'r gallu i deithio at ddibenion gwaith.

Dymunol

1. Profiad o gymhwyso dull datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau i gynyddu gweithgarwch corfforol o fewn cymunedau.
2. Profiad o gymhwyso meddwl systemau yn eu gwaith.
3. Cymhwyster diogelu ac amddiffyn plant.

Gofynion sgiliau Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: [Lefelau sgiliau iaith Gymraeg](#). Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol

ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.				
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Yn gallu mynegi eich hun yn y Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.				
C2 - Prif ddefnyddiwr Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad DBS manylach.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac mae'n bosib y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd na'r fanyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.